TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET

CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT:

YMATEB CYNGOR GWYNEDD I YMGYNGHORIAD ADRAN TRAFNIDIAETH LLYWODRAETH Y DU: 'CEFNOGI GWEITHREDIADAU AWYRENNAU GOFOD MASNACHOL YN Y DU – YMGYNGHORIAD AR FEINI PRAWF I BENDERFYNU AR LEOLIAD MAES GOFOD YN Y DU'

GWYNEDD COUNCIL RESPONSE TO UK GOVERNMENT DEPARTMENT OF TRAMSPORT CONSULTATION: 'SUPPORTING COMMERCIAL SPACEPLANE OPERATIONS IN THE UK - CONSULTATION ON CRITERIA TO DETERMINE THE LOCATION OF A UK SPACEPORT'

AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards, Arweinydd y Cyngor

Councillor Dyfed Wyn Edwards, Leader of the Council

PENDERFYNIAD/DECISION

Cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad uchod ar ran Cyngor Gwynedd gan ddatgan cefnogaeth i leoli Maes Gofod y DU yn Maes Awyr Llanbedr (atodiad 1).

Present a response to the above consultation on behalf of Gwynedd Council expressing support for locating the UK Spaceport at Llanbedr Airfield (Annex 1).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Amcangyfrifir y bydd yr economi gofod werth £400 biliwn y flwyddyn ledled y byd erbyn 2030. Uchelgais Llywodraeth y DU yw bod yr economi gofod y DU werth 10% o'r cyfanswm byd eang (£40 biliwn y flwyddyn) erbyn 2030.

Mae Llywodraeth San Steffan yn dymuno sicrhau fod canolfan yn weithredol yn y DU ar gyfer hedfan awyrennau gofod erbyn 2018.

I'r perwyl, comisiynwyd yr Awdurdod Hedfan Sifil i adnabod meini prawf ar gyfer lleoli maes gofod ac i adnabod safleoedd allai fod yn addas. Mae Maes Awyr Llanbedr yn un o wyth lleoliad posibl (ynghyd a 6 yn yr Alban a 1 yn Lloegr) sydd wedi eu hadnabod.

Mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar eu dogfen; 'Cefnogi Gweithrediadau Awyrennau Gofod Masnachol yn y DU – Ymgynghoriad ar Feini Prawf i Benderfynu ar Leoliad Maes Gofod yn y DU' (https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/360448/spaceport-consultation.pdf).

Wedi'r ymgynghoriad bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi eu hymateb yn

hwyrach yn y flwyddyn ac yna'n gwahodd safleoedd i gynnig eu hunain yn lleoliadau ar gyfer y maes gofod.

It is estimated that the global space economy will be worth £400 billion per annum by 2030. The UK Government's ambition is that the UK space economy should be worth 10% of the global economy (£40 billion per annum) by 2030.

The UK Government wishes to ensure that a space plane flight centre is operational in the UK by 2018.

To this end, the Civil Aviation Authority were commissioned to develop criteria for the location of a space port and identify locations which could be suitable. Llanbedr Airfield is one of eght possible locations (alongside 6 in Scotland and 1 in England) idnetified.

The UK Government is consulting on its document; 'Supporting Commercial Spaceplane Operations in the UK - Consultation on Criteria to Determine the Location of a UK Spaceport' (https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/360448/spaceport-consultation.pdf).

After the consultation the UK Givernment will publish a response later in the year and invite interested parties to put themselves forward as a preferred location for development.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

- Mae 'Gwella Ansawdd Swyddi a Lefelau Cyflog' yn un o flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2013 - 2014.

- Mae sicrhau economi blaengar gydag amrywiaeth o gyfleon gwaith o ansawdd uchel yn rhan o nod Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd a nodir Maes Awyr Llanbedr yn safle datblygu allweddol i Feirionnydd.

- Mae safle Maes Awyr Llanbedr yn rhan o barth menter ddynodedig gan Lywodraeth Cymru - Parth Menter Eryri.

- 'Improving the Quality of Jobs and Wage Levels' is a priority within the Council's Strategic Plan for 2013 – 2014.

- Ensuring an innovative economy with a variety of high quality work opportunities is part of the Meirionnydd Employment Plan's aim and Llanbedr Airfield is identified as a key development site for Meirionnydd.

- Llanbedr Airfield is part of a Welsh Government designated enterprise zone – Snowdonia Enterprise Zone

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

"Rwy'n gefnogol iawn i'r sylwadau sydd yn cael eu cyflwyno allai arwain at

fuddsoddiad o bwys yn Ne'r Sir."

"I'm very supportive of the comments submitted which may lead to significant investment in the South of the County."

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."

"No observations in relation to propriety."

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

"Pe bai 'maes gofod' yn cael ei ddatblygu ar safle Maes Awyr Llanbedr, byddai'n hwb enfawr i economi'r ardal, a diau y byddai hefyd yn gwella sefyllfa ariannol y Cyngor."

"If a 'spaceport' were developed at Llanbedr Airfield, it would be a huge boost to the area's economy and would also, no doubt, improve the financial position of the Council."

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER – Cyng./Cllr. Annwen Hughes

"Rwyf yn falch bod maes awyr Llanbedr yn un o'r wyth safle sydd dan ystyriaeth i gael maes gofod. Byddai y maes gofod arfaethedig yn hwb mawr i economi yr ardal ac hefyd yn creu swyddi sydd wir eu hangen. Hefyd byddai yn rhoi cyfle i deuluoedd ifanc yr ardal aros yn eu cynefin ac hwyrach denu mwy o deuluoedd ifanc i'r ardal ac yn sgil hyn fyddai yr ysgolion lleol ar eu hennill."

"I am pleased that Llanbedr airfield is one of eight sites under consideration for a spaceport. The proposed spaceport would be a major boost to the local economy and also create much needed jobs. It would also provide an opportunity for young families to stay in their area, and possibly, attract more young families to the area benefit the local schools."

LLOFNOD /SIGNED

DYDDIAD/DATE

3.11.14

Arweinydd y Cyngor
Leader of the Council
Cynghorydd / Councillor Dyfed Edwards

Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Dyfed Edwards**
☎ **(01286) 679868**
✉ **Cynghorydd.DyfedEdwards@gwynedd.gov.uk**

Ein Cyf / Our Ref: **DE/ERhD**
Eich Cyf / Your Ref:

6 Hydref, 2014

Jeremy Ketley
Yr Adran Drafnidiaeth
Parth 1/26
Great Minster House
33 Horseferry Road
LLUNDAIN
SW1P 4D

Annwyl Jeremy Ketley

YMATEB CYNGOR GWYNEDD : Cefnogi Gweithrediadau Awyrennau Gofod Masnachol yn y DU – Ymgynghoriad ar Feini Prawf i Benderfynu ar Leoliad Maes Gofod yn y DU

Cyflwynir yr ymateb yma gan Gyngor Gwynedd, yr Awdurdod Unedol i'r rhan o Ogledd Orllewin Cymru ble lleolir Maes Awyr Llanbedr – un o'r wyth lleoliad posib i faes gofod yn y DU sydd wedi eu hadnabod gan yr Awdurdod Hedfan Sifil.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ystod o wasanaethau i gymuned Llanbedr ac mae ganddo gyfrifoldeb am les cymdeithasol a ffyniant economaidd yr ardal. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Maes Awyr Llanbedr ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ac felly Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r awdurdod cynllunio perthnasol.

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu cynnwys Maes Awyr Llanbedr ar restr fer yr Awdurdod Hedfan Sifil, ac fe fyddem yn llawn gefnogi datblygiad y safle fel lleoliad i Faes Gofod y DU.

Mae Maes Awyr Llanbedr yn safle eithriadol wedi ei leoli yn nhirwedd enwog Eryri sydd gyda nifer o rinweddau fyddai'n ei wneud yn ddewis ardderchog ar gyfer y maes gofod, megis ei statws yn faes awyr presennol wedi ei leoli ar yr arfordir gan ganiatáu i faes gofod weithredu'n ddiogel gyda chyn lleied â phosib o risg i'r cyhoedd.

Mae'r Maes Awyr yn derbyn cefnogaeth lawn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Ardal Fenter Eryri ac yn manteisio o'i agosrwydd at Brifysgolion Aberystwyth a Bangor, sydd ag arbenigedd mewn meysydd sy'n berthnasol i dechnoleg y gofod.

Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad:

C1. *Ydych chi'n cytuno gydag argymhelliad lefel uchel yr Awdurdod Hedfan Sifil pe byddai penderfyniad yn cael ei gymryd i fwrw ymlaen, y dylai gweithrediadau isorbitol ddechrau un ai ar sail barhaol neu dros dro, o un (neu fwy) o'r isod:*

- *maes awyr presennol gyda thystysgrif EASA;*
- *maes awyr DU presennol gyda thrwydded yr Awdurdod Hedfan Sifil; a/neu*
- *yn faes awyr milwrol presennol yn y DU, yn amodol i gymeradwyaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn*

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn iawn i nodi diogelwch teithwyr a'r 'cyhoedd diniwed' fel y brif ystyriaeth ac felly mae dewis maes awyr a gofod awyr gaiff eu rheoli'n briodol o'r pwysigrwydd pennaf. Dylid gofyn i safleoedd ar y rhestr fer sicrhau fod y trwyddedau priodol wedi eu sicrhau cyn pen cyfnod o amser a gytunwyd.

C2. *Ydych chi'n cytuno er mwyn gwneud y defnydd mwyaf posib o'r seilwaith presennol, y dylai'r lleoliad ddal i fod yn weithredol os yn bosib, ond gyda lefel isel o symudiadau gan awyrennau a dylai fod yno seilwaith/cyfleusterau a darpariaeth gwasanaeth presennol a phriodol ar y ddaear?*

Cytunwn mai defnyddio cyfleuster presennol gyda lefel isel o symudiadau awyrennau sydd orau. Mae Maes Awyr Llanbedr yn cwrdd yn llawn gyda'r gofyniad yma.

C3. *Ydych chi'n cytuno na ddylid ystyried safleoedd tir glas?*

O gofio fod safleoedd priodol fel Maes Awyr Llanbedr eisoes yn bodoli, nid yw Cyngor Gwynedd yn credu ei bod hi'n briodol ystyried datblygu safleoedd tir glas.

C4. *Ydych chi'n cytuno gyda dadansoddiad yr Awdurdod Hedfan Sifil sy'n adnabod y meini prawf i'w hystyried wrth adnabod lleoliad parhaol i Faes Gofod y DU? Os nad ydych, eglurwch pam.*

Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno gyda dadansoddiad yr Awdurdod Hedfan Sifil sydd yn adnabod y meini prawf.

C5. *Ydych chi'n credu fod unrhyw feini prawf eraill y dylid hefyd eu hystyried? Os ydych, eglurwch pam.*

Dylid rhoi ystyriaeth i gyfleoedd i unioni'r gofynion am Faes Gofod gyda gofynion eraill gan Lywodraeth y DU fel y gofyniad parhaus i sefydlu amgylchedd profi ac arfarnu yn y DU i systemau awyrennau mawr a reolir o bell a dylid cefnogi safle fel Llanbedr a fedrai gwrdd â'r ddau ofyniad.

C6. *Ydych chi'n cytuno fod y rhain yn feini prawf perthnasol? Pa bwysau a ddylid ei roi iddynt?*

Mae'r meini prawf a nodwyd yn briodol ac yn berthnasol ac mae Cyngor Gwynedd yn cytuno y dylai diogelwch gael ei ystyried yn bennaf ynghyd â ffactorau cyfrannol fel meteoroleg. Dylai ystyriaethau amgylcheddol hefyd gael pwysau priodol, ar y sail y byddai defnyddio maes awyr presennol yn gostwng yr effeithiau amgylcheddol yn sylweddol.

C7. *Os yw mwy nag un lleoliad yn cwrdd yn agos â'r meini prawf gweithredu hanfodol, diogelwch, meterolegol, amgylcheddol a'r meini prawf economaidd, ydych chi'n cytuno y dylem hefyd ystyried ffactorau sy'n cyfrannu i dwf lleol a chenedlaethol? Os ydych, pa bwysau a ddylid ei roi i'r ffactorau hyn?*

Mae datblygiad Maes Gofod y DU yn rhoi cyfle unigryw i symud ymlaen yn wyddonol ac yn dechnolegol a drwy datblygiad economaidd a thwf lleol/cenedlaethol. Mae hi'n ddyletswydd ar y DU i uchafu'r manteision hyn drwy daro ar y cydbwysedd mwyaf manteisiol rhwng agosrwydd rhesymol i glystyrau presennol o ragoriaeth diwydiannol ac academaidd ag anghenion economaidd y gymuned fyddai'n gartef arfaethedig i'r maes gofod.

C8. *Ydych chi'n cytuno gyda dadansoddiad yr Awdurdod Hedfan Sifil a'r argymhelliad cryf sef hyd nes fo gwell dealltwriaeth o berfformiad diogelwch awyren ofod isorbital, dylai gweithrediadau awyrennau gofod ddigwydd mewn ardaloedd gyda lefel poblogaeth isel yn unig a'r farn mai dim ond lleoliad arfordirol sy'n addas i amddiffyn y cyhoedd diniwed?*

Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno gydag argymhelliad yr Awdurdod Hedfan Sifil ac yn nodi fod Maes Awyr Llanbedr yn cwrdd yn llawn gyda'r gofyniad yma oherwydd lefel isel y boblogaeth a'r mynediad i ofod awyr sydd ar wahân.

C9. *Beth yw eich barn chi am restr fer yr Awdurdod Hedfan Sifil o wyth safle posib?*

Mae Cyngor Gwynedd yn wir groesawu cynnwys Llanbedr fel un o'r wyth safle ar y rhestr fer.

C10. *Oes yna unrhyw leoliadau ar restr fer yr Awdurdod Hedfan Sifil y credwch chi y dylid eu diystyru? Os oes, rhowch eich rhesymau.*

Mae Cyngor Gwynedd yn parchu dadansoddiad gwrthrychol yr Awdurdod Hedfan Sifil o'r safleoedd sydd ar gael.

C11. *Oes yna unrhyw leoliadau ychwanegol yr ydych chi yn eu hystyried a ddylai fod ar restr fer yr Awdurdod Hedfan Sifil? Os oes, eglurwch pam.*

Dim

Diolch yn fawr am y cyfle i roi ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad. I gloi, carwn ail-ddatgan cefnogaeth lawn Cyngor Gwynedd i'r dewis o Faes Awyr Llanbedr fel lleoliad i Faes Gofod y DU ac rwyf yn eich sicrhau y bydd y Cyngor yn darparu unrhyw gymorth a phopeth sydd o fewn ei allu i'r fenter hon.

Yn gywir,

Cyng. Dyfed Edwards
Arweinydd Cyngor Gwynedd
Leader of Gwynedd Council

Arweinydd y Cyngor
Leader of the Council
Cynghorydd / Councillor Dyfed Edwards

Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Dyfed Edwards**
☎ **(01286) 679868**
✉ **Cynghorydd.DyfedEdwards@gwynedd.gov.uk**

Ein Cyf / Our Ref: **DE/ERhD**
Eich Cyf / Your Ref:

6 October, 2014

Jeremy Ketley
Department for Transport
Zone 1/26
Great Minster House
33 Horseferry Road
LONDON
SW1P 4D

Annwyl Jeremy Ketley

GWYNEDD COUNCIL RESPONSE : Supporting Commercial Spaceplane Operations in the UK - Consultation on Criteria to Determine the Location of a UK Spaceport

This response is presented by Gwynedd Council, the Unitary Authority for the region of North West Wales within which Llanbedr Airfield - one of the eight potential locations for a UK spaceport identified by the Civil Aviation Authority – is located.

Gwynedd Council provides a range of services to the community of Llanbedr and has responsibility for the social wellbeing and economic prosperity of the area. It should noted, however, that Llanbedr Airfield is located within Snowdonia National Park and, therefore, the Snowdonia National Park Authority is the relevant planning authority.

Gwynedd Council warmly welcomes the inclusion of Llanbedr Airfield in the CAA's shortlist and would fully support the development of the site as the location of the UK Spaceport.

Llanbedr is an extraordinary site set within the world renowned landscape of Snowdonia with a great many attributes which would make it an excellent choice for the spaceport such as its status as an existing airfield facility in a secure costal location where a spaceport could safely operate at minimum risk to the public.

The Airfield benefits from wholehearted support of the Welsh Government as part of the Snowdonia Enterprise Zone and benefits from its proximity to both Aberystwyth and Bangor Universities, both of whom have expertise in fields relevant to space technology.

Response to consultation questions:

Q1. *Do you agree with the CAA's high-level recommendation that, if a decision were taken to proceed, suborbital operations should preferably commence, either on a permanent or a temporary basis, from one (or more) of the following:*

- *an existing EASA-certificated aerodrome;*
- *an existing UK CAA-licensed aerodrome; and/or*
- *an existing UK military aerodrome, subject to approval from the MOD*

The CAA are right to identify the safety of passengers and the 'uninvolved public' as the primary consideration and, as such, the selection of an appropriately regulated aerodrome and airspace is paramount. Shortlisted sites should be required to ensure that the appropriate licenses are secured within an agreed timeframe.

Q2. *Do you agree that in order to make maximum use of existing infrastructure, the location should preferably still be active but at a low level of aircraft movements and should have existing and appropriate ground infrastructure/facilities and service provision?*

We agree that utilising an existing facility with low level of aircraft movements is preferable. Llanbedr Airfield fully meets this requirement

Q3. *Do you agree that green field sites should not be considered?*

Given that appropriate sites such as Llanbedr Airfield already exist Gwynedd Council does not believe it is appropriate to consider the development of green field sites.

Q4. *Do you agree with CAA's analysis identifying the criteria to be considered in identifying a permanent location for a UK Spaceport? If not, please explain why.*

Gwynedd Council agrees with the CAA's analysis identifying the criteria.

Q5. *Do you think there are any other criteria that should also be taken into consideration? If so, please explain why.*

Consideration should be given to opportunities to align the requirements for a Spaceport with other requirements from the UK Government such as the ongoing requirement to establish a UK test and evaluation environment for large, remotely piloted aircraft systems and a site such as Llanbedr which could meet both requirements should be supported.

Q6. *Do you agree that these are relevant criteria? What weight should be attached to them?*

The criteria identified are appropriate and relevant and Gwynedd Council agrees that safety consideration should be given primacy alongside contributory factors such as meteorology. Environmental considerations should also be given appropriate weight, on the basis that the utilisation of an existing aerodrome would significantly reduce the environmental impacts.

Q7. *If more than one location closely meets the essential operating criteria, safety, meteorological, environmental and economic criteria, do you agree that we should also consider factors around the contribution to local and national growth? If so, what weight should be given to these factors?*

The development of the UK Spaceport provides a unique opportunity for scientific and technological advancement and by that means economic development and local / national growth. It is incumbent upon UK to maximise these benefits by striking the most beneficial balance between reasonable proximity to existing clusters of industrial and academic excellence and the economic needs of a proposed host community.

Q8. *Do you agree with the CAA's analysis and strong recommendation that until there is a better understanding of sub-orbital spaceplane safety performance, spaceplane operations should only take place in areas of low population density and the resulting view that only a coastal location is suitable to protect the uninvolved general public?*

Gwynedd Council agrees with the CAA's recommendation and notes that Llanbedr Airfield fully meets this requirement due to its low population density access to segregated airspace.

Q9. *What are your views on the CAA's shortlist of eight potential sites?*

Gwynedd Council wholeheartedly welcomes the inclusion of Llanbedr as one of the eight shortlisted sites.

Q10. *Are there any locations on the CAA's shortlist which you consider should be disregarded? If yes, please give your reasoning.*

Gwynedd Council respects the CAA's objective analysis of the available sites.

Q11. *Are there any additional locations that you consider should be on the CAA's short list? If yes, please explain why.*

None

Thank you for the opportunity to provide Gwynedd Council's response to the consultation; in closing, I would reiterate Gwynedd Council's full support for the selection of Llanbedr Airfield as the location for the UK Spaceport and assure you that the Council will provide any and all support within its ability to the venture.

Yn gywir,

Cyng. Dyfed Edwards
Arweinydd Cyngor Gwynedd
Leader of Gwynedd Council